# Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014

Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac unedau cyfeirio disgyblion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 154/2014
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2014

# Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli ac athrawon sy’n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, a grwpiau eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen hon yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli ac athrawon sy’n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion ar reoliadau newydd ar gyfer pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion. |
| **Camau i’w cymryd** | Rhaid i awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli ac athrawon sy’n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion ddilyn y canllawiau statudol hyn. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Lles Disgyblion<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: WellbeingSHARE@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007<br><br>*Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 47/2006 (2006) |

ISBN digidol 978 1 4734 2400 5
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23487

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**
Sylfaen ddeddfwriaethol, amseru a gweithredu 2
Diffiniadau 2
Yr offeryn llywodraethu 2
Yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer y cyfansoddiad 2
Trefniadau pontio 3
Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli 3

**Rhan 1: Cyfansoddiad, swyddogaethau a chyfrifoldebau** **4**
1. Offeryn llywodraethu (Rhan 2 o'r rheoliadau) 4
2. Cyfansoddiad y pwyllgorau rheoli a chategorïau'r aelodau (Rhannau 3 a 4 o'r rheoliadau) 6
3. Cyfnod gwasanaeth (Rhan 5 o'r rheoliadau) 10
4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli (Rhannau 6 a 7 o'r rheoliadau) 11

**Rhan 2: Gweithdrefnau pwyllgorau rheoli** **14**
5. Penodi a diarddel swyddogion a swyddogaethau swyddogion (Rhannau 5 a 6 ac Atodlenni 1 a 3 i'r rheoliadau) 14
6. Cyfarfodydd a thrafodion pwyllgorau rheoli (Rhan 6 ac Atodlen 3 o'r rheoliadau) 16
7. Is-bwyllgorau pwyllgorau rheoli (Rhan 6 ac Atodlen 3 o'r rheoliadau) 19

**Atodiad A: Offeryn llywodraethu enghreifftiol** **22**
**Atodiad B: Enghreifftiau o fodelau cyfansoddiadol** **23**
**Atodiad C: Sefydlu pwyllgor rheoli cyntaf, trefniadau pontio a phwyllgorau rheoli dros dro** **24**
**Atodiad D: Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli** **25**
**Atodiad E: Cyfyngiadau ar bersonau sy'n gallu cymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor rheoli neu ei is-bwyllgorau** **31**

# Cyflwyniad

## Sylfaen ddeddfwriaethol, amseru a gweithredu

Mae’r canllawiau hyn yn egluro gofynion Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014 (OSC 2014 2709 (W.270)) yn ymwneud â chyfansoddiad a swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion, a’r gweithdrefnau ar gyfer pwyllgorau rheoli.

Daeth y rheoliadau i rym ar 31 Hydref 2014. O’r dyddiad hwnnw ymlaen, dylai awdurdodau lleol greu offeryn llywodraethu ar gyfer eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion. Mae’n rhaid i’r offeryn ddod i rym ar 23 Chwefror 2015.

Mae’n rhaid sefydlu pwyllgorau rheoli erbyn 23 Chwefror 2015. Ar ôl 31 Hydref 2014, dylai pwyllgorau rheoli ddilyn darpariaethau’r rheoliadau, fel yr eglurir yn Rhan 2 o’r canllawiau hyn, wrth gyflawni eu swyddogaethau a’u cyfrifoldebau. Mae’r gweithdrefnau sydd i’w dilyn gan bwyllgorau rheoli yn debyg i weithdrefnau cyrff llywodraethu ysgolion.

## Diffiniadau

Math o ysgol yw Uned Cyfeirio Disgyblion sy’n cael ei sefydlu a’i chynnal gan awdurdod lleol i ddarparu addysg addas ar gyfer plant a phobl ifanc na fyddent yn cael y cyfryw addysg fel arall oherwydd salwch, gwaharddiad neu resymau eraill (adran 19 o Ddeddf Addysg 1996).

Yr ‘athro â gofal’ am yr Uned Cyfeirio Disgyblion yw’r unigolyn sy’n gyfrifol am waith yr Uned o ddydd i ddydd. Mewn rhai Unedau, gall y term ‘pennaeth’ gael ei ddefnyddio yn lle ‘athro â gofal’. Yn y canllawiau hyn, defnyddir y term ‘athro â gofal’ drwyddi draw i adlewyrchu geiriad y rheoliadau.

## Yr offeryn llywodraethu

Mae’n rhaid creu offeryn llywodraethu ar gyfer pob Uned Cyfeirio Disgyblion, neu grŵp o Unedau sy’n cydweithio o dan un pwyllgor rheoli. Mae’r offeryn yn cofnodi enw’r Uned (neu’r Unedau yn y grŵp) a chyfansoddiad y pwyllgor rheoli neu’r cydbwyllgor rheoli a manylion eraill. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw paratoi offeryn llywodraethu ar gyfer pob Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae offeryn llywodraethu enghreifftiol wedi’i atodi yn Atodiad A.

## Yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer y cyfansoddiad

Mae’r egwyddorion sylfaenol yn pennu pa gategorïau o aelodau sy’n gorfod cael eu cynrychioli ar y pwyllgor rheoli, a lefel eu cynrychiolaeth.
Mae yna bedwar grŵp o randdeiliaid gorfodol: rhieni, staff yr Uned, yr awdurdod lleol, a’r gymuned. Mae noddwyr yn bumed grŵp dewisol (gweler adran 3 am fwy o fanylion). Mae cyfrannau’r lleoedd sy’n gorfod cael eu neilltuo ar gyfer y categorïau o aelodau gwahanol ym mhob Uned neu grŵp o Unedau wedi’u nodi yn adran 3 ac Atodiad B.

## Trefniadau pontio

Gall pob aelod sy'n gwasanaethu ar bwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion ar hyn o bryd gael ei benodi/ei ethol i wasanaethu ar y pwyllgorau rheoli a nodir yn y rheoliadau os yw'n bodloni diffiniad y categori o aelod sy'n berthnasol. Gweler adran 2 am ddiffiniad o gategorïau aelodau, ac Atodiad C am ragor o fanylion.

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

O 31 Hydref 2014 ymlaen, bydd pwyllgorau rheoli yn gwneud cyfraniad mawr at lywodraethu eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion. Mae'r rheoliadau'n nodi bod y pwyllgorau rheoli yn gyfrifol am ymddygiad eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion, ac yn pennu'r cylch gorchwyl perthnasol ar gyfer pwyllgorau rheoli, awdurdodau lleol ac athrawon â gofal. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi pwerau a dyletswyddau eraill yn uniongyrchol i bwyllgorau rheoli. Gweler adran 4 ac Atodiad D am ragor o wybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli.

# Rhan 1: Cyfansoddiad, swyddogaethau a chyfrifoldebau

## 1. Offeryn llywodraethu (Rhan 2 o'r rheoliadau)

### Crynodeb

1.1.1 Mae'r offeryn llywodraethu yn cofnodi prif fanylion pob Uned Cyfeirio Disgyblion neu grŵp o Unedau, gan gynnwys eu maint a'u cyfansoddiad. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi offerynnau drafft ar gyfer pob Uned Cyfeirio Disgyblion.

1.1.2 Ar ôl i Uned Cyfeirio Disgyblion sefydlu pwyllgor rheoli â chyfansoddiad yn unol â'r rheoliadau, gall y pwyllgor rheoli gynnig unrhyw ddiwygiad i'r cyfansoddiad a chyflwyno copi drafft o'r offeryn llywodraethu diwygiedig i'r awdurdod lleol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol, gan gynnwys yr egwyddorion sylfaenol perthnasol ar gyfer y cyfansoddiad. Os yw'r offeryn yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, bydd yr awdurdod lleol yn creu'r offeryn ac yn rhoi copi ohono i aelodau'r pwyllgor rheoli. Gall y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol adolygu a newid yr offeryn ar unrhyw adeg. Gweler paragraffau 1.3.1 ac 1.4.1 am ragor o fanylion.

### Cynnwys a ffurf

1.2.1 Mae'n rhaid i'r offeryn llywodraethu gynnwys:

- enw, cyfeiriad a rhif adrannol yr Uned Cyfeirio Disgyblion (neu'r enw ar y cyd os yw grŵp o Unedau yn cydweithio)
- enw'r pwyllgor rheoli
- nifer yr aelodau ym mhob categori
- cyfanswm yr aelodau, gan gynnwys unrhyw aelodau nawdd
- cyfnod gwasanaeth unrhyw gategori o aelodau, os yw'n llai na phedair blynedd
- os oes gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion aelodau nawdd, enw'r corff enwebu
- y dyddiad pan ddaw'r offeryn llywodraethu i rym, na all fod cyn 23 Chwefror 2015.

1.2.2 Ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion a sefydlir mewn ysbyty, dylai'r offeryn llywodraethu hefyd gofnodi enw'r corff sydd â'r hawl i enwebu unigolyn i'w benodi fel aelod cymuned.

### Adolygu ac amrywio'r offeryn llywodraethu

1.3.1 Gall y pwyllgor rheoli neu'r awdurdod lleol adolygu'r offeryn llywodraethu ar unrhyw adeg. Mae'r gofynion gweithdrefnol fel a ganlyn:

- mae’n rhaid i bob parti, h.y. y pwyllgor rheoli a’r awdurdod lleol, hysbysu ei gilydd yn ysgrifenedig am yr eitem o’r offeryn llywodraethu y maent am ei hamrywio, gan roi’r rhesymau am hynny
- mae’n rhaid i’r parti arall ymateb wedyn, gan nodi unrhyw wrthwynebiadau a’r rhesymau amdanynt
- os oes anghytuno, gall y naill barti neu’r llall gynnig amrywiad arall
- os nad yw’r awdurdod lleol yn fodlon â chynnig diwygiedig y pwyllgor rheoli, mae’n rhaid iddo (a) hysbysu’r pwyllgor rheoli gan nodi ei resymau, neu (b) cynnig ei amrywiad ei hun gan roi’r rhesymau, ac ym mhob achos roi cyfle rhesymol i’r pwyllgor rheoli gytuno ar gopi drafft diwygiedig
- ar ôl sicrhau cytundeb, gall yr awdurdod lleol amrywio’r offeryn llywodraethu
- os na cheir cytundeb, gall yr awdurdod lleol amrywio’r offeryn llywodraethu os yw’n credu bod hynny’n briodol
- dylai’r offeryn llywodraethu wedi’i amrywio gofnodi’r dyddiad y daw’r amrywiad i rym.

**Gofynion eraill yn ymwneud ag offerynnau llywodraethu**

1.4.1 Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol roi copi o’r offeryn llywodraethu, neu fersiwn wedi’i chydgrynhoi os oes amrywiad wedi bod, i bob aelod o’r pwyllgor rheoli (ac i’r athro â gofal, boed yn aelod o’r pwyllgor ai peidio).

1.4.2 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gan bob Uned Cyfeirio Disgyblion offerynnau llywodraethu erbyn 23 Chwefror 2015 sy’n cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014. Ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion y bwriedir eu hagor ar neu ar ôl 31 Hydref 2014, mae’n rhaid i’r awdurdod lleol sicrhau bod offeryn llywodraethu drafft yn cael ei baratoi cyn gynted ag y bo modd, ond nid yn hwyrach na’r dyddiad pan fydd yr Uned yn derbyn dysgwyr.

**Offeryn llywodraethu sy’n berthnasol i ddwy Uned Cyfeirio Disgyblion neu fwy**

1.5.1 Lle bo disgwyl i bwyllgor rheoli lywodraethu dwy Uned Cyfeirio Disgyblion neu fwy, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai’r awdurdod lleol drafod y cynnig â’r pwyllgor rheoli, neu bwyllgor rheoli bwriedig perthnasol, a gofyn am ei gytundeb. Dylai awdurdodau lleol a phwyllgorau rheoli presennol ystyried pob ffactor perthnasol a all effeithio ar y pwyllgor rheoli os yw’n briodol gwneud hynny, e.e. maint yr Uned Cyfeirio Disgyblion unigol a’r gwahanol fathau o anghenion dysgwyr mae pob un yn darparu ar eu cyfer, cyn penderfynu a fyddai’n briodol sefydlu mwy nag un Uned o dan un pwyllgor rheoli.

## 2. Cyfansoddiad y pwyllgorau rheoli a chategorïau'r aelodau (Rhannau 3 a 4 o'r rheoliadau)

2.1.1 Mae'n rhaid i bwyllgor rheoli gynnwys o leiaf saith aelod. Er bod y gyfraith yn caniatáu uchafswm o 20 aelod ar bwyllgor rheoli, yn ymarferol rydym yn argymell na ddylai pwyllgor gynnwys mwy na 12 aelod, oni bai bod pwyllgor rheoli yn gyfrifol am fwy nag un Uned Cyfeirio Disgyblion, neu os oes gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion fwy nag un uned. Mewn amgylchiadau eraill, mae yna berygl y byddai pwyllgor mawr yn mynd yn anhylaw, a pherygl y gallai nifer aelodau'r pwyllgor rheoli fod yn fwy na nifer y disgyblion yn yr Uned. Mae cyfrannau'r lleoedd a neilltuir ar gyfer pob un o'r categorïau fel a ganlyn:

- Aelodau rhieni: o leiaf un lle, ond dim mwy nag un rhan o bump
- Aelodau staff: o leiaf un lle, ond dim mwy na thraean, gan gynnwys yr athro â gofal
- Aelodau awdurdod lleol: o leiaf un lle, ond dim mwy na thraean
- Yn ogystal, gall y pwyllgor rheoli benodi un neu ddau aelod nawdd
- Aelodau cymuned: mae'n rhaid sicrhau bod nifer y lleoedd o leiaf un yn fwy na'r holl aelodau eraill

Mae enghreifftiau o fodelau cyfansoddiadol i'w gweld yn Atodiad B.

2.1.2 Mae'n rhaid talgrynnu cyfrannau a chanrannau i'r rhif cyfan agosaf, ac eithrio ar gyfer aelodau nawdd lle mae'r gofyniad yn seiliedig ar rifau. Mae Atodiad B yn cynnwys enghreifftiau o fodelau sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion. Nid yw'n rhestr gyflawn o enghreifftiau, a gall awdurdodau lleol a phwyllgorau rheoli fabwysiadu modelau amgen sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol.

### Categorïau'r aelodau

### Aelodau rhieni

2.2.1 Mae **aelodau rhieni**, gan gynnwys gofalwyr disgyblion cofrestredig yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gymwys i sefyll etholiad i ddod yn aelodau rhieni o'r Uned. Mae aelodau rhieni yn cael eu hethol gan rieni eraill yr Uned. Mae'n rhaid i bwyllgorau rheoli wneud pob ymdrech resymol i lenwi lleoedd gwag ar gyfer aelodau rhieni drwy etholiadau. Fodd bynnag, os nad yw digon o rieni yn sefyll mewn etholiad, gall y pwyllgor rheoli benodi:

(a) rhiant disgybl cofrestredig yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, neu os nad yw hynny'n bosibl
(b) rhiant cyn-ddisgybl yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, neu os nad yw hynny'n bosibl
(c) rhiant disgybl sydd wedi'i gofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion arall neu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, neu os nad yw hynny'n bosibl

(d) rhiant plentyn o oedran Uned Cyfeirio Disgyblion gorfodol, neu o dan yr oedran hwnnw, neu os nad yw hynny'n bosibl
(e) unrhyw riant.

2.2.2 Mae unigolyn yn anghymwys i gael ei ethol neu ei benodi'n aelod rhiant o Uned Cyfeirio Disgyblion os yw'n aelod etholedig o'r awdurdod lleol neu os yw'n gweithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion am dros 500 awr mewn blwyddyn academaidd.

2.2.3 Lle bo dwy Uned Cyfeirio Disgyblion neu fwy yn cydweithio o dan un pwyllgor rheoli, wrth ethol aelodau rhieni ar gyfer cydbwyllgorau rheoli, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai rhieni disgyblion pob Uned yn y grŵp gael cyfle i sefyll. Os oes llai o swyddi gwag nag enwebiadau, rhaid cynnal etholiad drwy bleidlais gyfrinachol. Gellir cyflwyno papurau pleidleisio ar gyfer aelodau rhieni drwy'r post neu 'post disgyblion'. Os defnyddir 'post disgyblion', dylid sicrhau bod nad oes modd adnabod y pleidleisiwr.

### Aelodau staff

2.3.1 Mae staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu/staff cymorth sy'n cael eu talu i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gymwys i fod yn aelodau staff. Caiff **aelodau staff** eu hethol gan staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion, a rhaid iddynt fod yn cael eu talu i weithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr Uned. Nid yw gwirfoddolwyr yn gymwys. Mae'n rhaid defnyddio pleidlais gyfrinachol ar gyfer pob etholiad â mwy nag un ymgeisydd.

2.3.2 Mae'n rhaid i'r athro â gofal mewn Uned Cyfeirio Disgyblion fod yn aelod o'r pwyllgor rheoli, a bydd yn perthyn i'r categori staff. Os yw pwyllgor rheoli yn cynnwys dau aelod staff neu fwy, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid penodi o leiaf un aelod staff (ac eithrio'r athro â gofal) o blith staff addysgu'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Os nad oes unrhyw aelod o'r staff addysgu yn sefyll mewn etholiad, gellir ethol aelod o staff nad yw'n addysgu neu aelod o staff cymorth i lenwi'r lle hwnnw. Os oes tri neu fwy o leoedd ar gyfer aelodau staff ar y pwyllgor rheoli, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid neilltuo o leiaf un o'r lleoedd hynny ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu neu staff cymorth. Ond os nad yw unrhyw aelod o'r grŵp hwn o staff yn sefyll mewn etholiad, gellir ethol athro i lenwi'r lle hwnnw.

2.3.3 Os yw'r athro â gofal yn penderfynu peidio â bod yn aelod, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai hysbysu clerc y pwyllgor am y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig. Mae'r lle'n cael ei gadw ar gyfer yr athro â gofal ac ni all unrhyw un arall ei lenwi.

2.3.4 Lle bo dwy Uned Cyfeirio Disgyblion neu fwy yn cydweithio o dan un pwyllgor rheoli, dylai pob athro â gofal fod yn aelod o'r pwyllgor rheoli.

2.3.5 Wrth ethol aelodau staff ar gyfer cydbwyllgorau rheoli, mae Llywodraeth Cymru yn argymell hefyd y dylai staff pob un o Unedau Cyfeirio Disgyblion y grŵp gael cyfle i sefyll ac y dylai'r holl staff gael cyfle i bleidleisio.

2.3.6 Nid yw staff Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n gymwys i gael eu hethol yn aelodau staff (h.y. sy'n cael eu talu i weithio yn yr Uned) yn gymwys i

wasanaethu fel aelodau awdurdod lleol neu aelodau cymuned yn eu Huned Cyfeirio Disgyblion. Os ydynt yn cael eu talu i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion am fwy na 500 awr mewn blwyddyn academaidd, nid ydynt yn gymwys i gael eu hethol na'u penodi'n aelodau rhieni. Fodd bynnag, gall staff bleidleisio i ethol aelodau rhieni os ydynt yn rhieni disgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, a gallant fod yn aelodau mewn Uned arall. Ni fydd eu statws cyflogaeth yn effeithio ar eu cymhwysedd i fod yn aelod yn y categorïau hyn mewn Uned Cyfeirio Disgyblion arall.

### Aelodau awdurdod lleol

2.4.1 Yr awdurdod lleol sy'n penodi **aelodau awdurdod lleol**. Gall awdurdodau lleol benodi unrhyw unigolyn cymwys fel aelod awdurdod lleol, a dylent ystyried penodi pobl o feysydd gwasanaeth sydd â nifer uchel o bobl ifanc sy'n defnyddio'r Uned Cyfeirio Disgyblion (er enghraifft, Plant sy'n Derbyn Gofal). Dylai awdurdodau lleol benodi ymgeiswyr sydd wedi ymrwymo i redeg yr Uned yn effeithiol, beth bynnag yw eu teyrngarwch neu eu lliwiau gwleidyddol.

2.4.2 Mae unigolyn yn anghymwys i gael ei benodi'n aelod awdurdod lleol os yw'n gymwys i wasanaethu fel aelod staff Uned Cyfeirio Disgyblion.

### Aelodau cymuned

2.5.1 Penodir **aelodau cymuned** i gynrychioli buddiannau'r gymuned. Dylai aelodau cymuned fod yn unigolion sydd wedi ymrwymo i lywodraethu da a llwyddiant yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac sy'n byw neu'n gweithio yn y gymuned a wasanaethir gan yr Uned. Gall aelodau cymuned ddod o ysgolion lleol, gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, elusennau addysgol, colegau addysg bellach lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant amgen.

2.5.2 Wrth benodi aelodau cymuned, argymhellir y dylai awdurdodau lleol (neu'r pwyllgor rheoli ei hun os yw eisoes wedi'i sefydlu) **geisio penodi cynrychiolwyr o ysgolion lleol yn y lle cyntaf**, er mwyn helpu i sicrhau bod ysgolion bwydo yn cadw perchenogaeth ac yn gallu monitro a chefnogi cynnydd eu disgyblion. Mae'r rheoliadau yn nodi hefyd nad yw rhywun sy'n gymwys i fod yn aelod staff ac aelodau etholedig o'r awdurdod yn cael bod yn aelodau cymuned.

2.5.3 Bydd cynyddu nifer y cynrychiolwyr o ysgolion ar bwyllgorau rheoli yn helpu i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu yn well, ac yn helpu i ddatblygu dilyniant a chodi safonau yn eu cyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn flaenoriaeth, felly, ar gyfer aelodaeth o'r pwyllgor rheoli. Os nad oes modd penodi cynrychiolydd ysgol ac mae'n anodd dod o hyd i bobl i'w penodi fel aelodau cymuned, dylid ystyried penodi aelodau cymuned sy'n ymwneud â'r bobl ifanc, sydd o bosibl yn gweithio mewn darpariaeth amgen yn eu hardal. Gall hyn gynnwys grwpiau cymunedol, grwpiau cefnogi troseddwyr neu grwpiau cymorth cyffuriau, a darpariaethau amgen ac unedau cyfeirio disgyblion eraill. Gellid ystyried busnesau lleol, colegau ac eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc hefyd. Os yw'r awdurdod lleol neu'r pwyllgor rheoli yn credu y byddai'n ddefnyddiol parhau i gael mewnbwn gan wasanaethau eraill yr

awdurdod lleol (a oedd yn arfer gwasanaethu ar y pwyllgor fel aelodau cymuned) dylid nodi bod cynrychiolwyr y gwasanaethau hyn yn gallu mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli o hyd i gynnig cyngor gwerthfawr, ond ni fyddai ganddynt hawliau pleidleisio.

2.5.4 Disgwylir i Unedau Cyfeirio Disgyblion weithio'n agos gydag ysgolion lleol, ac mewn rhai achosion, fel rhan o bartneriaeth ysgolion ar gyfer ymddygiad. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylai'r holl leoedd ar gyfer aelodau cymuned, neu'r rhan fwyaf ohonynt, gael eu llenwi gan ysgolion lleol neu, os yw'r Uned yn rhan o bartneriaeth ysgolion, gan gynrychiolwyr o'r partneriaethau hyn, e.e. penaethiaid, dirprwy benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion sy'n perthyn i'r partneriaethau hyn.

2.5.5 Mewn rhai achosion, gall pwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion gynnwys cynrychiolwyr o un ysgol leol yn unig fel aelodau cymuned. Byddai hyn yn briodol, er enghraifft, lle mae ysgol sy'n perfformio'n dda, gan gynnwys ysgol arbennig, yn gweithio'n agos gydag Uned Cyfeirio Disgyblion, o bosibl drwy rannu cyfleusterau neu arbenigedd rheoli ag Uned sydd angen gwella ei pherfformiad yn ôl Estyn.

2.5.6 Os yw Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'i lleoli mewn ysbyty, dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Ymddiriedolaeth GIG sy'n rheoli'r ysbyty enwebu un unigolyn neu fwy i lenwi lleoedd aelodau cymuned.

2.5.7 Gall yr heddlu lleol a sefydliadau ieuenctid o fewn y trydydd sector fod yn aelodau cymuned hefyd.

2.5.8 Nid oes modd penodi rhywun yn aelod cymuned os yw'n gymwys i fod yn aelod staff o'r pwyllgor rheoli, neu os yw'n aelod etholedig o'r awdurdod lleol.

### Aelodau nawdd

2.6.1 Caiff **aelodau nawdd** eu penodi gan y pwyllgor rheoli. Y pwyllgor rheoli sy'n penderfynu a yw am ddewis penodi aelodau nawdd. Os yw'r pwyllgor rheoli yn penderfynu penodi un neu ddau aelod nawdd, mae'n rhaid iddo ofyn am enwebiadau ar gyfer y noddwr/noddwyr. Gall y pwyllgor rheoli benodi uchafswm o ddau unigolyn fel aelodau nawdd.

2.6.2 Gall pobl sy'n rhoi cymorth ariannol neu gymorth mewn nwyddau sylweddol i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, neu bobl sy'n darparu gwasanaethau i'r Uned, gael eu penodi gan y pwyllgor rheoli fel aelodau nawdd. Mae'r diffiniad hwn yn caniatáu cynnwys cynrychiolwyr amrywiaeth eang o bartneriaid ar y pwyllgor rheoli, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion eraill sy'n cynnig cyngor a chymorth i'r Uned.

2.6.3 Os yw pwyllgor rheoli yn cynnwys aelodau nawdd, mae'n rhaid cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer aelodau cymuned i'r un graddau â nifer yr aelodau nawdd er mwyn sicrhau bod yr aelodau cymuned yn parhau i fod yn y mwyafrif.

### Cyfranogiad disgyblion

2.7.1 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r pwyllgor rheoli annog **cyfranogiad disgyblion** yn y pwyllgor, fel bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu cynrychioli yn y broses o wneud penderfyniadau. Gallai hyn gael ei hwyluso drwy gyngor yr ysgol a all gynnig fforwm effeithiol ar gyfer trafod ac ennyn cyfranogiad disgyblion. Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer pwyllgorau rheoli ynghylch cyfranogiad disgyblion, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r hyn y mae'n ei olygu i Unedau Cyfeirio Disgyblion a'u disgyblion, a rôl cynghorau ysgol.

http://learning.wales.gov.uk/improvementareas/Well-being/pupil-participation-voice/?lang=en#/improvementareas/Well-being/pupil-participation-voice/?lang=cy

www.llaisdisgyblioncymru.org.uk

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schoolcouncilsbestpracticeguide/?lang=cy

## 3. Cyfnod gwasanaeth (Rhan 5 o'r rheoliadau)

### Aelodau cymwys ac anghymwys

3.1.1 Mae Atodlen 2 o'r rheoliadau yn egluro pryd y mae unigolyn yn gymwys neu'n anghymwys i ddod yn aelod neu barhau i wasanaethu fel aelod.

### Cyfnod gwasanaeth

3.2.1 Y cyfnod gwasanaeth ar gyfer holl gategorïau'r aelodau yw pedair blynedd, ond gall y pwyllgor rheoli benderfynu pennu cyfnod gwasanaeth llai ar gyfer un categori neu fwy. Nid yw hyn yn berthnasol i'r athro â gofal. Os yw'r cyfnod gwasanaeth yn llai na phedair blynedd, mae'n rhaid cofnodi hyn yn yr offeryn llywodraethu. Ni all y cyfnod gwasanaeth fod yn llai na blwyddyn ac ni ellir ei amrywio ar gyfer aelodau unigol. Gall unrhyw aelod ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r clerc. Mae modd ailbenodi neu ailethol aelod sy'n cyrraedd diwedd ei gyfnod gwasanaeth ac yn parhau i fod yn gymwys.

### Diarddel aelodau

3.3.1 Gall aelodau awdurdod lleol gael eu diarddel gan yr awdurdod lleol a'u penododd. Mae'n rhaid i'r unigolyn a benododd yr aelod awdurdod lleol roi rhybudd ysgrifenedig ei fod wedi'i ddiarddel i'r clerc, y pwyllgor rheoli, a'r aelod perthnasol.

3.3.2 Gall y pwyllgor rheoli ddiarddel aelodau cymuned.

3.3.3 Gall y pwyllgor rheoli ddiarddel unrhyw aelodau nawdd, a gall wneud hynny hefyd ar gais y corff enwebu.

3.3.4 Gall y pwyllgor rheoli ddiarddel unrhyw aelod rhiant sydd wedi'i benodi, ond ni all ddiarddel aelod rhiant sydd wedi'i ethol. (Bernir bod aelod rhiant wedi'i ethol os yw wedi sefyll etholiad i fod yn aelod rhiant, mae'n amherthnasol a gafodd pleidlais gyfrinachol ei chynnal yn y cyswllt hwn.)

3.3.5 Ni all y pwyllgor rheoli ddiarddel unrhyw aelod staff.

**Gweithdrefn diarddel aelodau**

3.4.1 Mewn achosion lle mae'r pwyllgor rheoli am ddiarddel unrhyw aelod cymuned, aelod rhiant a benodwyd, neu aelod nawdd, mae'n rhaid i'r aelod(au) sy'n cyflwyno'r cynnig diarddel roi rhesymau am y cynnig, ac mae'n rhaid i'r aelod perthnasol gael cyfle i ymateb drwy wneud datganiad cyn bod pleidlais yn cael ei chynnal ar y cynnig i ddiarddel yr aelod dan sylw.

3.4.2 Mewn achosion yn ymwneud ag aelod cymuned a enwebwyd gan sefydliad gwirfoddol, Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG, neu aelod nawdd sy'n destun cais diarddel gan y corff enwebu, mae'n rhaid i'r corff enwebu sy'n cynnig ei ddiarddel hysbysu clerc y pwyllgor rheoli a'r aelod perthnasol yn ysgrifenedig am y rhesymau am gynnig diarddel yr aelod. Mae'n rhaid i glerc y pwyllgor rheoli roi'r rhesymau am y cynnig i ddiarddel yr aelod, ac mae'n rhaid i'r aelod y cynigir ei ddiarddel gael cyfle i ymateb drwy wneud datganiad cyn i bleidlais gael ei chynnal ar ddiarddel yr aelod dan sylw.

3.4.3 Mae'n rhaid cadarnhau penderfyniad pwyllgor rheoli i ddiarddel unrhyw aelod cymuned, aelod nawdd neu aelod rhiant a benodwyd mewn ail gyfarfod sydd i'w gynnal o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod cyntaf. Yn y ddau gyfarfod, mae'n rhaid cynnwys diarddel yr aelod dan sylw fel eitem o fusnes ar yr agenda.

## 4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli (Rhannau 6 a 7 o'r rheoliadau)

4.1.1 Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi sefydlu Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddarparu ar gyfer anghenion rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn eu hardal sy'n methu mynychu ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig am ba reswm bynnag. Bwriedir i bwyllgorau rheoli gyflawni swyddogaethau cynghori ynghyd â chyfrifoldeb statudol ar gyfer rhai swyddogaethau neu dasgau penodol. Disgwylir iddynt gyfrannu'n ymarferol at y rhan fwyaf o'r penderfyniadau er mwyn sicrhau bod eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu rhedeg yn effeithiol ac yn darparu addysg addas ar gyfer dysgwyr. O ganlyniad, dywed Rhan 7 o'r rheoliadau bod rhaid i'r awdurdod lleol ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i bwyllgorau rheoli. Y swyddogaethau yw:

- cynnal yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r cwricwlwm
- cyfrifoldeb am ddisgyblaeth
- arfarnu staff addysgu.

4.1.2 Nid yw'r gofyniad i ddirprwyo yn cynnwys y swyddogaethau canlynol:

- pwerau ymyrraeth yr awdurdod
- rheoli mangreoedd ysgol
- cyfarwyddyd yr awdurdod ar iechyd a diogelwch
- penodi, gwahardd neu ddiswyddo staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu
- gwario arian yr awdurdod lleol.

4.1.3 Mae gan bwyllgorau rheoli gyfrifoldeb statudol ar y cyd i gyflawni rhai swyddogaethau, e.e. penderfynu ar y cwricwlwm i'w gynnig a phenderfynu amseroedd sesiynau ysgol. O safbwynt gwahardd, er enghraifft, mae ganddynt swyddogaethau tebyg i gyrff llywodraethu ysgolion mewn perthynas â chadarnhau neu wrthod gwaharddiadau.

4.1.4 Mewn achosion lle nad yw pwerau neu ddyletswyddau yn ymwneud â chynnal Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'u dirprwyo neu eu rhoi yn ffurfiol i'r pwyllgor rheoli, mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylid gofyn i'r pwyllgor roi cyngor i'w awdurdod lleol ar benderfyniadau yn ymwneud â materion o'r fath. Er enghraifft, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i bennu cyllideb eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion a phenderfynu ar faterion staffio, gan gynnwys recriwtio a diswyddo staff.

4.1.5 Mae Atodiad D yn nodi swyddogaethau allweddol a thasgau cysylltiedig sy'n berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae'r atodiad yn nodi hefyd ar ba lefel neu lefelau y dylid gwneud penderfyniadau, neu yr argymhellir y dylid gwneud penderfyniadau.

**Cylch gorchwyl**

4.2.1 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, ac unrhyw swyddogaethau a ddirprwyir iddo gan yr awdurdod lleol, dylai'r pwyllgor rheoli weithredu'n gywir, yn wrthrychol ac yn onest er budd pennaf yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Swyddogaeth y pwyllgor rheoli**

4.3.1 Dylai pwyllgorau rheoli gyflawni swyddogaeth strategol a chynghorol wrth gyflawni eu swyddogaethau ac unrhyw swyddogaethau a ddirprwyir iddynt gan yr awdurdod lleol. Yn benodol, dylent weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a chreu fframwaith strategol ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Bydd hyn yn cynnwys:

- pennu nodau ac amcanion priodol
- nodi a chynnwys polisïau, targedau a blaenoriaethau
- pennu trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu nodau ac amcanion, ac ar gyfer penderfynu a yw'r polisïau, y targedau a'r blaenoriaethau'n cael eu cyflawni.

4.3.2 Dylai pwyllgorau rheoli dderbyn cyngor ar hyn gan yr athro â gofal cyn gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Dylai aelodau'r pwyllgor rheoli weithio

mewn ffordd strategol, gan ddefnyddio unrhyw dystiolaeth fonitro i adolygu a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw dargedau a bennwyd er mwyn penderfynu a yw polisi yn gweithio neu a oes angen ei newid.

4.3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid defnyddio pwyllgorau rheoli fel bwrdd seinio ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn ystyried materion yn ymwneud ag addysg heblaw yn yr ysgol yn y cyd-destun ehangach (hynny yw, y tu allan i leoliad yr Uned Cyfeirio Disgyblion).

**Swyddogaeth yr athro â gofal**

4.4.1 Mae'r athro â gofal yn gyfrifol am drefnu, rheoli a rheolaeth fewnol yr Uned Cyfeirio Disgyblion, ac am gynghori ar y cynllun strategol a'i weithredu. Yn benodol, mae'n rhaid i athrawon â gofal lunio nodau ac amcanion, polisïau a thargedau i'r pwyllgor rheoli a'r Awdurdod Lleol ystyried eu mabwysiadu.

**Swyddogaeth yr awdurdod lleol**

4.5.1 Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i wneud trefniadau i ddarparu addysg addas ar gyfer plant na fyddent yn cael y cyfryw addysg mewn ysgol prif ffrwd fel arall oherwydd salwch, gwaharddiad neu resymau eraill. Lle bo awdurdod lleol yn sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'n gyfrifol am gynnal yr Uned. Mae'n rhaid iddo sicrhau bod adnoddau digonol gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'i bod yn cael ei threfnu'n briodol i ddarparu addysg o safon uchel.

4.5.2 O ystyried y gofyniad i sefydlu pwyllgorau rheoli ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cyfansoddiad y pwyllgorau hyn yn gywir a bod eu haelodau'n cael y cymorth priodol i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau.

# Rhan 2: Gweithdrefnau pwyllgorau rheoli

## 5. Penodi a diarddel swyddogion a swyddogaethau swyddogion (Rhannau 5 a 6 ac Atodlenni 1 a 3 i'r rheoliadau)

### Cadeirydd y pwyllgor rheoli

#### Swyddogaeth y cadeirydd

5.1.1 Mae penodi cadeirydd ar gyfer pob pwyllgor rheoli yn ofyniad yn y rheoliadau. Mae penderfyniadau yn ymwneud â swyddogaeth y cadeirydd yn cael eu gwneud yn lleol, ond gall y swyddogaeth gynnwys:

a) sicrhau bod busnes y pwyllgor rheoli yn cael ei gynnal yn gywir, yn unol â'r gofynion a'r argymhellion cyfreithiol

b) sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn effeithiol, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ac yn gwneud y defnydd gorau o'r amser sydd ar gael, a sicrhau bod gan bob aelod gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn trafodaethau a chyfrannu at benderfyniadau

c) sefydlu a meithrin perthynas effeithiol â'r athro â gofal, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at swyddogaethau'r naill a'r llall, a sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn gweithredu fel bwrdd seinio i'r athro â gofal ac yn darparu cyfeiriad strategol.

#### Ethol y cadeirydd a'r is-gadeirydd

5.1.2 Mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodau bob blwyddyn. Y pwyllgor rheoli sy'n penderfynu ar y broses, ond mae'n ofyniad yn y rheoliadau bod rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol ar gyfer unrhyw etholiad a ymleddir.

5.1.3 Bydd clerc y corff llywodraethu yn gweithredu fel y cadeirydd yn y rhan honno o unrhyw gyfarfod lle mae'r cadeirydd yn cael ei ethol. Ni all y clerc fod yn aelod o'r pwyllgor rheoli; felly nid oes gan y clerc bleidlais (neu bleidlais fwrw os yw'r bleidlais yn gyfartal) yn yr achos hwn.

5.1.4 Nid yw aelodau o'r pwyllgor rheoli (mewn unrhyw gapasiti) sy'n cael eu talu i weithio yn yr ysgol yn gymwys i gael eu hethol yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd y pwyllgor rheoli.

#### Cyfnod gwasanaeth y cadeirydd a'r is-gadeirydd

5.1.5 Bydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn gwasanaethu am flwyddyn.

5.1.6. Bydd y sawl a benodir yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd yn gwasanaethu nes bod olynydd yn cael ei benodi. Fodd bynnag, gallant ymddiswyddo unrhyw bryd drwy roi rhybudd ysgrifenedig i glerc y pwyllgor rheoli, neu gael ei ddiarddel yn unol â'r broses a ddisgrifir ym mharagraff 5.1.10.

5.1.7 Pan fydd swydd cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod yn wag, mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli ethol cadeirydd neu is-gadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf. Os yw'r cadeirydd yn absennol o gyfarfod, neu os yw swydd y cadeirydd yn wag, bydd yr is-gadeirydd yn gweithredu fel y cadeirydd.

5.1.8 Bydd cyfnod gwasanaeth y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn dod i ben pan ddaw eu cyfnod fel llywodraethwyr i ben, neu os ydynt yn dechrau cael eu talu i weithio yn yr ysgol.

### Dirprwyo swyddogaethau i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn achosion brys

5.1.9 Mae gan y cadeirydd neu'r is-gadeirydd y pŵer i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor rheoli os yw oedi o safbwynt cyflawni swyddogaeth yn debygol o gael effaith niweidiol ddifrifol ar fuddiannau'r Uned Cyfeirio Disgyblion, un o ddisgyblion yr Uned neu ei rieni, neu unigolyn sy'n gweithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

### Diarddel

5.1.10 Gall y pwyllgor rheoli ddiarddel y cadeirydd neu'r is-gadeirydd. Mae'n rhaid cynnwys cynnig i ddiarddel y cadeirydd neu'r is-gadeirydd fel eitem ar agenda cyfarfod y pwyllgor rheoli, ac mae'n rhaid dosbarthu'r agenda i aelodau'r pwyllgor rheoli saith diwrnod cyn y cyfarfod. Mae'n rhaid i'r aelod sy'n cynnig diarddel y cadeirydd neu'r is-gadeirydd nodi ei resymau am wneud hynny yn y cyfarfod. Mae'n rhaid i'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd gael cyfle i ymateb drwy wneud datganiad cyn gadael y cyfarfod a chyn i'r pwyllgor rheoli bleidleisio ar y cynnig i ddiarddel y cadeirydd neu'r is-gadeirydd.

## Clerc y pwyllgor rheoli

### Swyddogaeth y clerc

5.2.1 Mae'n rhaid i'r clerc weithio'n effeithiol gyda chadeirydd y pwyllgor rheoli, yr aelodau eraill a'r athro â gofal yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn cefnogi'r pwyllgor rheoli. Dylai'r clerc allu cynghori'r pwyllgor rheoli ar faterion cyfansoddiadol a gweithdrefnol, dyletswyddau a phwerau. Mae'r clerc yn atebol i'r pwyllgor rheoli.

### Penodi clerc y pwyllgor rheoli

5.2.2 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benodi clerc ar gyfer y pwyllgor rheoli, a gall ofyn am farn y pwyllgor rheoli cyn gwneud y penodiad. Ni ellir penodi aelodau o'r pwyllgor rheoli, gan gynnwys yr athro â gofal, yn glerc, ond mae modd penodi staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor rheoli i'r swydd hon.

5.2.3 Os nad yw'r clerc yn mynychu cyfarfod, gall yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod benodi aelod o'r pwyllgor rheoli (ond nid yr athro â gofal) i weithredu fel clerc yn y cyfarfod hwnnw.

### Swyddogaethau'r clerc

5.2.4 Dyma gyfrifoldebau clerc y pwyllgor rheoli[1]:

a) galw cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoli

b) mynychu cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoli a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw

c) cadw cofrestr o aelodau'r pwyllgor rheoli a hysbysu'r pwyllgor rheoli am unrhyw leoedd gwag

d) cadw cofrestr o bresenoldeb a'i chyflwyno i'r pwyllgor rheoli

e) rhoi a derbyn rhybuddion yn unol â rheoliadau a chanllawiau perthnasol

f) cyflawni swyddogaethau eraill yn unol â phenderfyniad y pwyllgor rheoli o dro i dro.

### Diarddel y clerc

5.2.5 Gall yr awdurdod lleol ddiarddel y clerc, ond gall ofyn am farn y pwyllgor rheoli cyn penderfynu gwneud hynny.

## 6. Cyfarfodydd a thrafodion pwyllgorau rheoli (Rhan 6 ac Atodlen 3 o'r rheoliadau)

### Yr hawl i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli

6.1.1 Mae gan aelodau, yr athro â gofal a'r clerc yr hawl i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli. Gall y pwyllgor rheoli ganiatáu i unrhyw unigolyn arall fynychu ei gyfarfodydd hefyd. Os oes cydbwyllgor rheoli ar gyfer dwy Uned Cyfeirio Disgyblion neu fwy, mae'n bwysig bod yr athro â gofal ym mhob Uned yn cael y cyfle i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli.

### Galw cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoli

6.2.1 Mae'n rhaid i bob pwyllgor rheoli gynnal o leiaf un cyfarfod ym mhob tymor ysgol. Bydd llawer o bwyllgorau rheoli yn awyddus i gyfarfod yn amlach; y pwyllgor rheoli sy'n penderfynu ar hyn ac ar hyd pob cyfarfod.

6.2.2 Mae cyfarfodydd yn cael eu galw gan y clerc ar sail cyfarwyddyd y pwyllgor rheoli a'r cadeirydd. Gall unrhyw dri aelod o'r pwyllgor rheoli ofyn am gyfarfod o'r pwyllgor rheoli drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r clerc sy'n crynhoi'r busnes sydd i'w drafod. Mae'n rhaid i'r clerc alw cyfarfod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

6.2.3 Mae'n rhaid i'r clerc roi rhybudd ysgrifenedig o gyfarfod i bob aelod ac i'r athro â gofal (os nad yw'n aelod), ynghyd â chopi o'r agenda ac unrhyw bapurau sydd i'w hystyried yn y cyfarfod o leiaf bum diwrnod cyn y cyfarfod. Os yw'r cadeirydd yn credu bod angen ystyried rhai materion ar frys, gall leihau cyfnod y rhybudd, ond mae'n rhaid rhoi rhybudd o saith diwrnod gwaith

---

[1] Gall canllaw i Lywodraethwyr ar rôl y Clerc ei weld ar wefan Llywodraethwyr Cymru: http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2012/04/01/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-rol-y-clerc/

o leiaf os yw diarddel y cadeirydd neu wahardd unrhyw aelod i gael eu hystyried.

**Cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoli**

6.3.1 Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor a phleidlais ganddo yw hanner aelodau'r pwyllgor rheoli (wedi'i dalgrynnu i fyny i gyfanrif); nid yw hyn yn cynnwys unrhyw leoedd gwag. *Er enghraifft*; os oes cyfanswm o 15 aelod, y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor rheoli yw wyth aelod. Fodd bynnag, os oes dau le gwag ar bwyllgor o 15, saith yw'r cworwm.

**Pleidleisio**

6.4.1 Mae'n rhaid i bob cwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o'r pwyllgor rheoli gael ei benderfynu gan fwyafrif o bleidleisiau gan yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Os yw cyfanswm y pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan y cadeirydd neu'r sawl sy'n gweithredu fel y cadeirydd ail bleidlais (neu bleidlais fwrw) cyn belled â'i fod yn aelod.

**Cofnodion a phapurau**

6.5.1 Mae'n rhaid i'r clerc sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw, eu cymeradwyo gan y pwyllgor rheoli a'u llofnodi gan y cadeirydd yn y cyfarfod nesaf.

6.5.2 Yn dilyn cais gan unrhyw berson â diddordeb, mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli ddarparu copi o'r agenda, y cofnodion wedi'u llofnodi ac adroddiadau neu bapurau a ystyriwyd yn y cyfarfod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Nid oes rhaid darparu gwybodaeth i'w harchwilio am unigolyn a enwir, neu am unrhyw fater arall sy'n gyfrinachol ym marn y pwyllgor rheoli.

**Cyfyngiadau ar bersonau sy'n gallu cymryd rhan yn nhrafodion cyfarfodydd a phwyllgorau'r pwyllgor rheoli**

6.6.1 Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

- Os oes gwrthdaro rhwng buddiannau unrhyw berson a buddiannau'r pwyllgor rheoli, dylai'r person hwnnw adael y cyfarfod ac ni ddylai bleidleisio.
- Mewn sefyllfa lle mae egwyddorion cyfiawnder naturiol yn gofyn am wrandawiad teg a bod amheuaeth resymol ynglŷn â gallu person i weithredu'n ddiduedd, dylai'r person hwnnw adael y cyfarfod heb bleidleisio hefyd.

6.6.2 Mae enghreifftiau o achosion lle mae'n rhaid rhoi gwrandawiad teg yn

cynnwys penderfyniadau'n ymwneud â disgyblu disgyblion. Nid yw'r cyfyngiadau ar bersonau sy'n gallu cymryd rhan mewn trafodion yn atal pwyllgor rheoli neu is-bwyllgor rhag caniatáu i rywun rhoi tystiolaeth berthnasol mewn achos priodol.

6.6.3 Os oes unrhyw anghytuno ynglŷn â'r angen i rywun adael cyfarfod o dan y rheoliadau, mae'n rhaid i'r aelodau eraill sy'n bresennol yn y cyfarfod benderfynu ar hyn.

6.6.4 Mae darpariaethau mwy penodol ynglŷn â chyfyngiadau ar gymryd rhan mewn trafodion i'w gweld yn Atodiad E.

**Gwahardd aelodau**

6.7.1 Mewn rhai amgylchiadau penodedig, gall y pwyllgor rheoli benderfynu gwahardd aelod am gyfnod o hyd at chwe mis. Dim ond am un neu fwy o'r rhesymau canlynol y gall y pwyllgor rheoli wahardd aelod:

a) Mae'r aelod yn cael ei dalu i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ymwneud â'i gyflogaeth
b) Mae'r aelod yn destun achos llys neu dribiwnlys, a all arwain at ei anghymwyso rhag parhau i wasanaethu fel aelod
c) Mae'r aelod wedi gweithredu mewn ffordd sy'n anghyson ag ethos yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac wedi dwyn anfri, neu'n debygol o ddwyn anfri, ar yr Uned neu'r pwyllgor rheoli neu ar ei swydd fel aelod
d) Mae'r aelod wedi torri ei ddyletswydd cyfrinachedd i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, ei staff neu ei disgyblion.

6.7.2 Gall pwyllgor rheoli bleidleisio i wahardd aelod am unrhyw un o'r rhesymau uchod, ond nid oes rhaid iddo wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r pwyllgor rheoli bleidleisio i wahardd aelod fel dewis olaf yn unig, ac y dylai geisio datrys unrhyw anawsterau neu anghydfod mewn ffordd fwy adeiladol yn y lle cyntaf.

6.7.3 Mae'n rhaid i unrhyw gynnig i wahardd aelod gael ei gynnwys fel eitem ar agenda cyfarfod ar ôl rhoi rhybudd o saith diwrnod gwaith o leiaf o'r cyfarfod. Cyn i'r pwyllgor rheoli bleidleisio i wahardd aelod, mae'n rhaid i'r aelod sy'n cynnig hyn roi ei resymau. Mae'n rhaid i'r aelod sy'n destun cynnig i'w wahardd gael cyfle i ymateb drwy wneud datganiad cyn gadael y cyfarfod a chyn i bleidlais gael ei chynnal.

6.7.4 Mae'n rhaid i aelod sydd wedi'i wahardd gael rhybudd o unrhyw gyfarfod a derbyn copi o'r agenda, adroddiadau a phapurau ar gyfer unrhyw gyfarfod yn ystod ei waharddiad.

6.7.5 Nid yw aelod sydd wedi'i wahardd yn cael ei effeithio gan y darpariaethau'n ymwneud ag anghymhwyso aelodau rhag gwasanaethu ar y pwyllgor am fethu mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli am chwe mis neu fwy neu am fethu eu mynychu heb ganiatâd y pwyllgor rheoli.

## 7. Is-bwyllgorau pwyllgorau rheoli (Rhan 6 ac Atodlen 3 o'r rheoliadau)

### Y pwyllgor rheoli yn dirprwyo swyddogaethau

7.1.1 Gall pwyllgor rheoli ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i is-bwyllgor, aelod neu'r athro â gofal. Mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli adolygu'r broses o ddirprwyo swyddogaethau bob blwyddyn. Mae pob pwyllgor rheoli yn atebol am unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo i bwyllgor neu unigolyn.

7.1.2 Ni all y pwyllgor rheoli ddirprwyo unrhyw swyddogaethau'n ymwneud â'r canlynol i is-bwyllgor:

- penodi neu ddiarddel y cadeirydd a'r is-gadeirydd
- penodi a diarddel y clerc
- gwahardd aelodau o'r Pwyllgor Rheoli
- dirprwyo swyddogaethau
- sefydlu is-bwyllgorau
- adolygu'r offeryn llywodraethu
- penodi aelodau rhieni, aelodau cymuned ac aelodau nawdd
- diarddel aelodau a'r weithdrefn ar gyfer diarddel aelodau.

7.1.3 Yn ogystal, ni all y pwyllgor rheoli ddirprwyo cyfrifoldeb am ddisgyblu a gwahardd disgyblion i aelod unigol o'r pwyllgor rheoli. Bydd staff sy'n gweithio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn parhau'n gyfrifol am weithredu cosbau disgyblu, yn unol â pholisi rheoli ymddygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

7.1.4 Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn neu bwyllgor y mae penderfyniad wedi'i ddirprwyo iddynt roi gwybod i'r pwyllgor rheoli am unrhyw gamau gweithredu neu benderfyniadau. Gall y pwyllgor rheoli barhau i gyflawni swyddogaethau y mae wedi'u dirprwyo; mae hyn yn galluogi'r pwyllgor rheoli i wneud penderfyniadau ar faterion sy'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd yn ymwneud â swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo.

### Sefydlu is-bwyllgorau

7.2.1 Mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli benderfynu ar aelodau a thrafodion unrhyw is-bwyllgor y mae'n ei sefydlu. Mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli fynd ati bob blwyddyn hefyd i adolygu sefydlu unrhyw is-bwyllgor, ei gylch gorchwyl, ei gyfansoddiad a'i aelodaeth. Mae'n rhaid i bob is-bwyllgor fod â chadeirydd,

sydd naill ai'n cael ei benodi gan y pwyllgor rheoli neu ei ethol gan yr is-bwyllgor. Gall y pwyllgor rheoli ddiarddel cadeirydd is-bwyllgor ar unrhyw adeg.

## Clerc is-bwyllgorau

### Penodi a diarddel clerc is-bwyllgor

7.3.1 Mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli benodi clerc i bob is-bwyllgor y mae'n penderfynu ei sefydlu. Nid yw is-bwyllgorau'n cynnwys grwpiau eraill a sefydlir gan y pwyllgor rheoli, megis gweithgorau a sefydlir am resymau penodol.

7.3.2 Ni all yr athro â gofal gael ei benodi'n glerc is-bwyllgor. Gall y pwyllgor rheoli benodi aelod i fod yn glerc i un is-bwyllgor neu fwy, ond mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r pwyllgor rheoli benodi a thalu clerc sydd wedi cymhwyso (neu sy'n derbyn hyfforddiant), gan fod gwasanaeth clercio proffesiynol yn helpu pwyllgorau rheoli i fod yn fwy effeithiol.

7.3.3 Os nad yw'r clerc yn mynychu cyfarfod is-bwyllgor, gall yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod benodi aelod o'r is-bwyllgor (ond nid yr athro â gofal) i weithredu fel clerc yn y cyfarfod hwnnw.

7.3.4 Gall y pwyllgor rheoli ddiarddel clerc is-bwyllgor ar unrhyw adeg.

### Swyddogaethau'r clerc

7.3.5 Dyma gyfrifoldebau clerc is-bwyllgor[2]:

a) galw cyfarfodydd o'r is-bwyllgor
b) mynychu cyfarfodydd o'r is-bwyllgor a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw
c) cyflawni swyddogaethau eraill yn ymwneud â'r is-bwyllgor yn unol â phenderfyniad y pwyllgor rheoli o dro i dro.

## Hawliau unigolion i fynychu cyfarfodydd is-bwyllgorau

7.4.1 Mae gan aelodau pwyllgorau, yr athro â gofal (boed yn aelod o'r pwyllgor ai peidio) a chlerc yr is-bwyllgor yr hawl i fynychu cyfarfodydd pwyllgor. Yn ogystal, gall y pwyllgor rheoli neu'r is-bwyllgor ganiatáu i unrhyw berson arall fynychu eu cyfarfodydd.

## Cyfarfodydd is-bwyllgorau

7.5.1 Mae cyfarfodydd is-bwyllgorau'n cael eu galw gan glerc yr is-bwyllgor

[2] Gall canllaw i Lywodraethwyr ar rôl y Clerc ei weld ar wefan Llywodraethwyr Cymru: http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2012/04/01/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-rol-y-clerc/

ar sail cyfarwyddyd y pwyllgor rheoli a chadeirydd yr is-bwyllgor.

**Rhybudd o gyfarfodydd is-bwyllgorau**

7.5.2 Mae'n rhaid i'r clerc roi rhybudd ysgrifenedig o gyfarfod i bob aelod o'r is-bwyllgor, ac i'r athro â gofal (boed yn aelod ai peidio), ynghyd â chopi o'r agenda ac unrhyw bapurau sydd i'w hystyried yn y cyfarfod o leiaf bum diwrnod cyn y cyfarfod. Os yw cadeirydd yr is-bwyllgor yn credu bod angen ystyried rhai materion ar frys, gall benderfynu lleihau cyfnod y rhybudd.

**Cworwm**

7.5.3 Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod is-bwyllgor ac unrhyw bleidlais yw hanner aelodau'r pwyllgor (wedi'i dalgrynnu i fyny i gyfanrif) heb gynnwys unrhyw leoedd gwag.

**Pleidleisio**

7.5.4 Mae'n rhaid i bob cwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod is-bwyllgor gael ei benderfynu gan fwyafrif o bleidleisiau gan yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Os yw cyfanswm y pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan y cadeirydd neu'r sawl sy'n gweithredu fel y cadeirydd ail bleidlais (neu bleidlais fwrw) cyn belled â'i fod yn aelod.

**Cofnodion cyfarfodydd is-bwyllgorau**

7.5.5 Mae'n rhaid i'r clerc sicrhau ei fod yn cadw cofnodion a'u bod yn cael eu llofnodi gan gadeirydd yr is-bwyllgor, ar ôl eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor. Yn dilyn cais gan unrhyw berson â diddordeb, mae'n rhaid i'r is-bwyllgor ddarparu copi o'r agenda, y cofnodion sydd wedi'u llofnodi ac adroddiadau neu bapurau a ystyriwyd yn y cyfarfod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Nid oes rhaid darparu gwybodaeth i'w harchwilio am unigolyn a enwir, neu am unrhyw fater arall sy'n gyfrinachol ym marn yr is-bwyllgor.

## Atodiad A: Offeryn llywodraethu enghreifftiol

1. Enw'r Uned Cyfeirio Disgyblion (neu'r grŵp o unedau) yw

………………………………….

2. Rhif cyfeirnod yr Uned yw …………………………………………………

3. Cyfeiriad yr Uned (ac unrhyw is-unedau eraill sy'n rhan o'r Uned) yw ….

cod post……..................................................................................................

4. Enw'r pwyllgor rheoli yw

"Pwyllgor rheoli ………………………………………………."
(nodwch enw'r Uned Cyfeirio Disgyblion fel mae'n ymddangos ym mharagraff 1. uchod).

5. Bydd y pwyllgor rheoli yn cynnwys:

a. X aelod rhiant (o leiaf un ond dim mwy nag un rhan o bump o'r lleoedd);
b. X aelod staff (o leiaf un ond dim mwy na thraean o'r lleoedd ac yn cynnwys yr athro â gofal);
c. X aelod awdurdod lleol (o leiaf un ond dim mwy na thraean o'r lleoedd);
d. X aelod nawdd (hyd at ddau);
e. X aelod cymuned (o leiaf un yn fwy na chyfanswm lleoedd yr aelodau eraill);

6. Cyfanswm aelodau XX

7. Y noddwr(wyr) sydd â'r hawl i enwebu X person i'w penodi'n aelodau nawdd o dan atodlen 1 o'r Rheoliadau yw
(nodwch yr enw yma) ……………………………………………………………………………..

8.(yn berthnasol os yw cyfnod gwasanaeth un neu fwy o gategorïau'r aelodau yn llai na phedair blynedd:)
Cyfnod gwasanaeth (categori X o aelodau) yw…………………………….
(nodwch gyfnod rhwng un a phedair blynedd)

9. Mae'r offeryn llywodraethu hwn yn dod i rym ar DD/MM/BBBB
(nodwch y dyddiad).

10. Gwnaed yr offeryn hwn drwy orchymyn awdurdod lleol XYZ ar DD/MM/BBBB
(nodwch y dyddiad).

11. Mae'n rhaid darparu copi o'r offeryn i bob aelod o'r pwyllgor rheoli (a'r athro â gofal os nad yw'n aelod).

# Atodiad B: Enghreifftiau o fodelau cyfansoddiadol

**Noder mai enghreifftiau yw'r rhestr hon. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr. Gall awdurdodau lleol a phwyllgorau rheoli fabwysiadu modelau gwahanol os dymunant, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol yn adran 3.**

| Enghreifftiau o fodelau cyfansoddiadol (categorïau'r aelodau a chydymffurfio ag egwyddorion) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm aelodau | **Rhieni** | Egwyddor: o leiaf un ond dim mwy na 1/5 | **Staff** | Egwyddor: o leiaf un ond dim mwy na 1/3 | **Awdurdod lleol** | Egwyddor: o leiaf un ond dim mwy na 1/3 | **Cymuned** | Egwyddor: o leiaf un yn fwy na'r lleill |
| 7 | 1 | 14% | 1 | 14% | 1 | 14% | 4 | 57% |
| 8 | 1 | 13% | 1 | 13% | 1 | 13% | 5 | 63% |
| 9 | 1 | 11% | 2 | 22% | 1 | 11% | 5 | 56% |
| 9 | 1 | 11% | 1 | 11% | 2 | 22% | 5 | 56% |
| 10 | 2 | 20% | 1 | 10% | 1 | 10% | 6 | 60% |
| 10 | 1 | 10% | 2 | 20% | 1 | 10% | 6 | 60% |
| 11 | 1 | 9% | 2 | 18% | 2 | 18% | 6 | 55% |
| 11 | 2 | 18% | 2 | 18% | 1 | 9% | 6 | 55% |
| 12 | 1 | 8% | 3 | 25% | 1 | 8% | 7 | 58% |
| 12 | 1 | 8% | 2 | 17% | 2 | 17% | 7 | 58% |
| 13 | 2 | 15% | 2 | 15% | 2 | 15% | 7 | 54% |
| 13 | 1 | 8% | 3 | 23% | 2 | 15% | 7 | 54% |
| 14 | 1 | 7% | 2 | 14% | 3 | 21% | 8 | 57% |
| 14 | 2 | 14% | 3 | 21% | 1 | 7% | 8 | 57% |
| 15 | 2 | 13% | 3 | 20% | 2 | 13% | 8 | 53% |
| 15 | 2 | 13% | 2 | 13% | 3 | 20% | 8 | 53% |
| 16 | 2 | 13% | 3 | 19% | 2 | 13% | 9 | 56% |
| 16 | 2 | 13% | 2 | 13% | 3 | 19% | 9 | 56% |
| 17 | 2 | 12% | 3 | 18% | 3 | 18% | 9 | 53% |
| 17 | 2 | 12% | 3 | 18% | 2 | 12% | 10 | 59% |
| 18 | 2 | 11% | 3 | 17% | 3 | 17% | 10 | 56% |
| 18 | 2 | 11% | 4 | 22% | 2 | 11% | 10 | 56% |
| 19 | 3 | 16% | 3 | 16% | 3 | 16% | 10 | 53% |
| 19 | 3 | 16% | 3 | 16% | 2 | 11% | 11 | 58% |
| 20 | 3 | 15% | 3 | 15% | 3 | 15% | 11 | 55% |
| 20 | 2 | 10% | 3 | 15% | 4 | 20% | 11 | 55% |

**Noder:** mae ffigurau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r cyfanrif agosaf.
Mae 0.5 wedi'i dalgrynnu i fyny.
Nid yw aelodau nawdd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn gan nad oes angen iddynt fod yn gyfran o aelodau'r pwyllgor.

## Atodiad C: Sefydlu pwyllgor rheoli cyntaf, trefniadau pontio a phwyllgorau rheoli dros dro

1. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sefydlu'r pwyllgor rheoli cyntaf ar gyfer eu holl Unedau Cyfeirio Disgyblion yn unol â'r rheoliadau. Dylid ethol aelodau rhieni ac aelodau staff a phenodi aelodau awdurdodau lleol ac aelodau cymuned rhwng 31 Hydref 2014 a 23 Chwefror 2015. Bydd cyfnod gwasanaeth yr aelodau yn cychwyn ar 23 Chwefror 2015. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn rhoi'r camau gofynnol ar waith i sicrhau bod etholiadau a phenodiadau'n digwydd yn unol â'r amserlen uchod.

2. Gall aelodau a benodwyd neu a etholwyd i bwyllgorau rheoli a sefydlwyd cyn i'r rheoliadau ddod i rym ar 31 Hydref 2014 – y cyfeirir atynt fel 'aelodau cyfredol' – gael eu hystyried i'w hethol neu eu penodi ar bwyllgorau rheoli ffurfiol os ydynt yn bodloni diffiniad y categori o aelod sy'n berthnasol. Os yw aelodau o'r fath eisoes yn gwasanaethu ar bwyllgorau rheoli sydd eisoes yn bodoli, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai awdurdodau lleol ystyried eu penodi i wasanaethu ar y pwyllgorau rheoli newydd.

3. Bydd cyfnod gwasanaeth aelod cyfredol sy'n parhau i wasanaethu fel aelod ar ôl i offeryn llywodraethu o dan y Rheoliadau ddod i rym yn dechrau o'r newydd, yn unol â'r offeryn llywodraethu, ar gyfer y categori y mae'r aelod wedi'i benodi/ethol ar ei gyfer.

4. Mae'n rhaid i'r offeryn llywodraethu gofnodi nifer yr aelodau, yn unol â phenderfyniad y pwyllgor rheoli. Felly, wrth i aelodau cyfredol gwblhau eu cyfnod gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd mwy o aelodau ar y pwyllgor rheoli na'r hyn a gofnodir gan yr offeryn llywodraethu.

5. Gall aelod cyfredol gael ei ailethol neu ei ailbenodi am dymor arall o dan y Rheoliadau.

6. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau rheoli dros dro ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion y maent yn bwriadu eu hagor. Dylai cyfansoddiad pwyllgorau rheoli dros dro fod yn debyg i gyfansoddiad pwyllgorau rheoli. Lle bo hynny'n bosibl, dylai'r aelodau a benodir i wasanaethu ar bwyllgorau rheoli dros dro fodloni'r meini prawf ar gyfer y categori o aelod sy'n berthnasol. Drwy wneud hyn, bydd modd iddynt wasanaethu ar y pwyllgor rheoli ffurfiol ar ôl i'r offeryn llywodraethu ddod i rym, gan sicrhau dilyniant yn y broses o reoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion newydd.

# Atodiad D: Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

**Swyddogaethau allweddol Unedau Cyfeirio Disgyblion**

| Allwedd i lefelau penderfyniadau |
|---|
| **Lefel 1** = penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol<br><br>**Lefel 2** = penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol (argymhellir yn gryf y dylid gofyn i'r pwyllgor rheoli am gyngor hefyd)<br><br>**Lefel 3** = penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor rheoli yn unig (e.e. dirprwyir y swyddogaeth/tasg i'r pwyllgor rheoli)<br><br>**Lefel 4** = penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor rheoli (argymhellir yn gryf y dylid gofyn i'r awdurdod lleol am gyngor hefyd)<br><br>**Lefel 5** = penderfyniad a wneir gan yr athro â gofal |

| Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth allweddol** | **Rhif** | **Tasgau** | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** | **Sylwadau** |
| **Cyllidebau** | 1 | Awdurdodau lleol i lunio polisi cyllideb a chyllid ar gyfer eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion | | ✓ | | | | Nid oes gan Unedau Cyfeirio Disgyblion gyllideb ddirprwyedig, a'r Awdurdod Lleol sy'n pennu cyllideb pob un o'u Hunedau. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai'r awdurdodau lleol fod â pholisi cyllideb a chyllid ar gyfer eu Hunedau, ac y dylid gofyn am farn y Pwyllgor Rheoli wrth bennu cyllidebau. Dylid annog Pwyllgorau Rheoli i gyflawni rhai o'r tasgau cysylltiedig, e.e. rhoi cyngor ar unrhyw ymarferion tendro neu drafodaethau ar gontractau. |
| | 2 | Cymeradwyo cynllun y gyllideb bob blwyddyn ariannol | ✓ | | | | | |
| | 3 | Monitro gwariant misol | | ✓ | | | | |
| | 4 | Sefydlu polisi codi tâl a rhyddhad rhag talu | | ✓ | | | | |
| | 5 | Penderfyniadau ariannol amrywiol (nodwyd yn y polisi) | | ✓ | | | | |
| | 6 | Ymrwymo i gontractau (nodwyd yn y polisi) | ✓ | | | | | |
| | 7 | Gwneud taliadau (nodwyd yn y polisi) | ✓ | | | | | |
| **Staffio** | 1 | Penodi athrawon â gofal | | ✓ | | | | Cyflogir staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion gan Awdurdodau Lleol; ac mae deddfwriaeth bresennol yn darparu ar gyfer cyflawni pob swyddogaeth staffio gan yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys materion yn ymwneud â thâl.<br>Cyflogir rhai athrawon/hyfforddwyr ar delerau tebyg i'r rhai mewn ysgolion a gynhelir – yn unol â thâl ac amodau athrawon – ac eraill ar delerau tebyg i staff eraill yr Awdurdod Lleol.<br><br>Disgwylir i Bwyllgorau Rheoli helpu i wella effeithiolrwydd Unedau Cyfeirio Disgyblion. Dylid eu hannog, felly, i helpu i benderfynu ar strwythurau staffio, helpu i benodi unigolion i swyddi allweddol yn yr Uned, a helpu gyda materion eraill yn ymwneud â staffio. |
| | 2 | Penodi dirprwy athrawon â gofal | | ✓ | | | | |
| | 3 | Penodi athrawon eraill | | ✓ | | | | |
| | 4 | Penodi staff nad ydynt yn addysgu | | ✓ | | | | |
| | 5 | Cytuno ar bolisi tâl | | ✓ | | | | |
| | 6 | Tâl yn ôl disgresiwn | | ✓ | | | | |
| | 7 | Sefydlu gweithdrefnau disgyblu/gallu staff | | ✓ | | | | |
| | 8 | Diarddel athro â gofal | | ✓ | | | | |
| | 9 | Diarddel aelodau staff eraill | | ✓ | | | | |
| | 10 | Gwahardd pennaeth | | ✓ | | | | |
| | 11 | Gwahardd staff (ac eithrio'r pennaeth) | | ✓ | | | | |
| | 12 | Dod â gwaharddiad i ben (pennaeth) | | ✓ | | | | |
| | 13 | Dod â gwaharddiad i ben (ac eithrio'r pennaeth) | | ✓ | | | | |
| | 14 | Penderfynu ar gyfanswm y staff | | ✓ | | | | |
| | 15 | Penderfynu ar daliadau diswyddo / ymddeoliad cynnar | ✓ | | | | | |
| | 16 | Sicrhau bod gwiriadau cofnodion troseddol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ar gyfer staff. | ✓ | | | | | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gael tystysgrifau gwiriad troseddol manylach ar gyfer aelodau o staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. |

| Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth allweddol** | **Rhif** | **Tasgau** | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** | **Sylwadau** |
| **Cwricwlwm** | 1 | Sefydlu polisi cwricwlwm (eang a chytbwys, nid y cwricwlwm cenedlaethol o reidrwydd) | | ✓ | ✓ | | ✓ | Mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer yr Awdurdod Lleol, y Pwyllgor Rheoli a'r Athro â Gofal i gydweithio i gytuno ar bolisi cwricwlwm ar gyfer eu Huned Cyfeirio Disgyblion, ac adolygu'r polisi o dro i dro. Argymhellir y dylent wneud hynny o leiaf unwaith y flwyddyn.<br><br>Felly, mae'n rhaid i'r polisi egluro'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredu a monitro'r polisi. Argymhellir ar ba lefel(au) y dylid cyflawni tasgau 2 i 6. |
| | 2 | Gweithredu polisi'r cwricwlwm | | | | | ✓ | |
| | 3 | Monitro polisi'r cwricwlwm | | ✓ | ✓ | | | |
| | 4 | Cyfrifol am safonau addysgu | | | ✓ | | ✓ | |
| | 5 | Penderfynu pa bynciau y dylid eu haddysgu o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a gweithredu darpariaeth ar gyfer hyblygrwydd yn y cwricwlwm (gan gynnwys gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol) | | | ✓ | | ✓ | |
| | 6 | Cyfrifoldeb am addysg plant unigol | | | ✓ | | ✓ | |
| | 7 | Darparu addysg rhyw – llunio a diweddaru polisi ysgrifenedig | | ✓ | | | ✓ | |
| | 8 | Gwahardd cyflyru gwleidyddol a sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu trin yn gytbwys | | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| **Rheoli Perfformiad** | 1 | Llunio polisi rheoli perfformiad | | ✓ | | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoli perfformiad staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid gofyn am farn y Pwyllgor Rheoli ynglŷn â phob tasg yn ymwneud â rheoli perfformiad, a bod y Pwyllgor Rheoli a'r Athro â Gofal yn gyfrifol am roi'r polisi ar waith.<br>Hefyd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi partneriaid gwella ysgolion i ddarparu cyngor ar wella safonau'r Uned i'r Awdurdod Lleol, y Pwyllgor Rheoli a'r Athro â Gofal. |
| | 2 | Sefydlu polisi rheoli perfformiad | | ✓ | | | | |
| | 3 | Gweithredu'r polisi rheoli perfformiad | | ✓ | | | | |
| | 4 | Adolygu'r polisi rheoli perfformiad bob blwyddyn | | ✓ | | | | |
| | 5 | Rhoi rheoli perfformiad ar waith | | | | ✓ | ✓ | |
| **Gosod Targedau** | 1 | Pennu targedau ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion unigol (cynlluniau dysgu), gan gynnwys strategaeth ymadael. | | | | | ✓ | Dylai bod gan bob disgybl gynllun dysgu sy'n seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol a chyrhaeddiad disgwyliedig yn y dyfodol. Dylai'r Athro â Gofal ac aelodau staff eraill fod yn bennaf gyfrifol am y dasg hon. |

| Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth allweddol** | **Rhif** | **Tasgau** | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** | **Sylwadau** |
| **Disgyblu/ Gwahardd** | 1 | Sefydlu polisi disgyblu | | | ✓ | | | Mae'r Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am sefydlu ac adolygu polisïau disgyblu. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli gytuno ar fesurau i sicrhau bod safonau ymddygiad a disgyblaeth uchel yn cael eu hyrwyddo a'u gweithredu.<br><br>O safbwynt gwahardd disgyblion, bydd angen i'r Pwyllgor Rheoli ystyried a ddylid cymeradwyo penderfyniadau i wahardd disgyblion yn barhaol neu'r rhai sy'n cael eu gwahardd am gyfnodau penodol o fwy na 15 diwrnod mewn tymor. Pe bai disgybl yn colli'r cyfle i sefyll arholiad oherwydd gwaharddiad, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli (neu'r cadeirydd/is-gadeirydd mewn achosion brys) ystyried a ddylid derbyn y disgybl yn ôl. |
| | 2 | Adolygu'r defnydd o wahardd disgyblion, gan gofio y gallant golli'r cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus | | | ✓ | | | |
| | 3 | Peri i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd gael eu derbyn yn ôl (Gellir dirprwyo hyn i'r cadeirydd/is-gadeirydd mewn achosion brys) | | | ✓ | | | |
| **Derbyniadau** | | Polisi derbyniadau (a strategaeth ymadael) | | ✓ | | | | Er mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion, byddai'n synhwyrol i'r Pwyllgor Rheoli allu cynghori'r Awdurdod Lleol ar bob mater yn ymwneud â derbyn disgyblion, e.e. y nifer fwyaf o ddisgyblion y dylid eu derbyn a'r math(au) o anghenion i ddarparu ar eu cyfer, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael (fel y nodir yng nghynllun y gyllideb). |
| **Anghenion Addysgol Arbennig** | 1 | Ystyried canllawiau'r Cod Ymarfer ar Anghenion Addysgol Arbennig | | ✓ | | | ✓ | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol, y Pwyllgor Rheoli a'r Athro â Gofal ystyried canllawiau statudol y Cod wrth ddiwallu anghenion disgyblion ag AAA. |
| | 2 | Sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag AAA | | ✓ | | | ✓ | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol hysbysu'r Athro â Gofal, y staff perthnasol a'r Pwyllgor Rheoli (neu aelod o'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am ddisgyblion ag AAA) am AAA penodol disgyblion sy'n mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. |
| | 3 | Sicrhau bod athrawon yn nodi disgyblion ag AAA ac yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer | | ✓ | | | ✓ | |
| | 4 | Cydgysylltu darpariaeth AAA ag ysgolion eraill. | | ✓ | | | ✓ | Os yw'n fanteisiol cydgysylltu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA, dylai Pwyllgorau Rheoli ymgynghori â'r Awdurdod Lleol ac ysgolion lleol (gan gynnwys ysgolion arbennig) i sicrhau bod darpariaeth effeithiol ar gael ar gyfer pob disgybl o'r fath yn yr ardal. |

| Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli |
|---|

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd ac Yswiriant** | 1 | Yswiriant adeiladau ac atebolrwydd personol | ✓ | | | | | Fel perchennog y safle, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu yswiriant addas.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylai'r Awdurdod Lleol a'r Pwyllgor Rheoli ddatblygu strategaeth adeiladau ar y cyd. |
| | 2 | Datblygu strategaeth neu uwchgynllun ar gyfer adeiladau'r ysgol a chyfrannu yn ôl yr angen at drefniadau Cynllunio Rheoli Asedau'r Awdurdod Lleol | | ✓ | | | | |
| | 3 | Caffael a chynnal a chadw adeiladau, gan gynnwys datblygu cynllun cynnal a chadw a ariennir yn briodol | | ✓ | | | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | 1 | Sefydlu polisi iechyd a diogelwch | | ✓ | | | | |
| | 2 | Sicrhau y dilynir rheoliadau iechyd a diogelwch | | | ✓ | | ✓ | |
| **Trefniadaeth Ysgol** | 1 | Cynnig i newid neu gau Uned Cyfeirio Disgyblion | | ✓ | | | | Mae ymgynghori â phwyllgorau rheoli yn ogystal â staff a rhieni yn arfer da pan fo'r Awdurdod Lleol yn cynnig cau Uned Cyfeirio Disgyblion neu wneud newidiadau sylweddol i Unedau.<br>Er mai'r Awdurdod Lleol sy'n penderfynu dyddiadau tymhorau a gwyliau, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid gofyn am farn y Pwyllgor Rheoli. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r Pwyllgor Rheoli benderfynu amseroedd sesiynau ysgol ar y cyd. |
| | 2 | Pennu amseroedd sesiynau ysgol a dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol | | ✓ | ✓ | | | |
| | 3 | Sicrhau bod yr ysgol yn cynnal y nifer o sesiynau y cytunwyd arnynt mewn blwyddyn | | | ✓ | | | |
| **Gweithdrefnau'r Pwyllgor Rheoli** | 1 | Llunio offeryn llywodraethu ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo | ✓ | | | | | |
| | 2 | Penodi (a diarddel) y cadeirydd a'r is-gadeirydd | | | ✓ | | | |
| | 3 | Penodi a diswyddo clerc y Pwyllgor Rheoli | | | | ✓ | | |
| | 4 | Sicrhau bod o leiaf tri chyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli yn cael eu cynnal mewn blwyddyn ysgol | | | ✓ | | | |
| | 5 | Penodi a diarddel aelodau cymuned neu aelodau nawdd | | | | ✓ | | |
| | 6 | Creu Cofrestr Buddiannau Busnes yr Aelodau | | | | ✓ | | |
| | 7 | Ystyried a ddylid dirprwyo swyddogaethau i unigolion neu is-bwyllgorau | | | ✓ | | | |
| | 8 | Rheoleiddio gweithdrefnau'r Pwyllgor Rheoli (os nad ydynt wedi'u nodi mewn cyfraith) | | | ✓ | | | |
| | 9 | Sefydlu gweithdrefn gwyno | ✓ | | | | | Mae'n arfer da sefydlu gweithdrefn gwyno sy'n egluro sut i wneud cwyn am unrhyw agwedd ar waith Uned Cyfeirio Disgyblion. Yn achos cwynion am y cwricwlwm, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli sefydlu gweithdrefn gwyno. |

| Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddogaeth allweddol** | **Rhif** | **Tasgau** | **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4** | **Lefel 5** | **Sylwadau** |
| **Darparu cyfleusterau a chymorth** | 1 | Penderfynu cynnig gweithgareddau ychwanegol a natur y gweithgareddau hynny | | | | ✓ | | Mae'r rheoliadau yn caniatáu i Bwyllgorau Rheoli ddarparu gwasanaethau ychwanegol sy'n diwallu anghenion y gymuned leol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd rhaid i Bwyllgorau Rheoli gael caniatâd yr Awdurdod Lleol cyn ystyried gwneud hynny. Os yw gwasanaethau ychwanegol o'r fath yn cael eu darparu, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli sefydlu a hysbysebu gweithdrefnau i fynd i'r afael â chwynion yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn. |
| | 2 | Rhoi'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir ar waith | | | ✓ | | | |
| | 3 | Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cyflwyno | | | ✓ | | | |
| | 4 | Rhoi'r gorau i ddarparu darpariaeth ysgol estynedig | | | ✓ | | | |
| | 5 | Penderfynu darparu cyngor ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol | | | | ✓ | | Gall y Pwyllgor Rheoli ddarparu cyngor neu gymorth ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion lleol ac awdurdodau lleol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth weithio gyda disgyblion mewn ysgolion lleol er mwyn ceisio mynd i'r afael â materion penodol, e.e. ymddygiad. |
| **Lles disgyblion/cymuned** | | Hyrwyddo lles disgyblion a chydlynu cymunedol | | | ✓ | | | Fel rhan o'u cyfrifoldeb i reoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn dda, mae gan Bwyllgorau Rheoli ddyletswydd i hyrwyddo lles disgyblion a chydlynu cymunedol. Yn yr un modd ag ysgolion, disgwylir i Unedau Cyfeirio Disgyblion gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau lleol drwy gysylltu ag ymddiriedolaethau plant ac ystyried y Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol – er enghraifft wrth wneud penderfyniadau ar drefniadau gofal plant. [3] |

[3] I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu mewn ysgol gweler http://wales.gov.uk/about/foi/publications-catalogue/circular/2008/safeguardingchildren/?lang=cy

# Atodiad E: Cyfyngiadau ar bersonau sy’n gallu cymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor rheoli neu ei is-bwyllgorau

1. Mae’n rhaid i aelodau adael unrhyw gyfarfod os oes ganddynt fuddiant ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol. Gall y clerc barhau i weithredu fel clerc oni bai bod y cyfarfod yn ystyried ei benodiad, ei dâl neu gamau disgyblu yn ei erbyn.

2. Mae’r rheoliadau yn cynnwys darpariaeth benodol yn ymwneud â rhai materion, sef:

i) ni ystyrir bod gan berson sy’n cael ei dalu i weithio yn yr ysgol fuddiant ariannol os nad yw ei fuddiant yn fwy na buddiant pobl eraill sy’n cael eu talu i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion

ii) mae’n rhaid i berson adael y cyfarfod heb bleidleisio os yw’r cyfarfod yn trafod ei benodi, ei ail-benodi, ei wahardd neu ei ddiarddel fel aelod neu aelod o bwyllgor, neu fel clerc, cadeirydd neu is-gadeirydd

iii) mae’n rhaid i berson sy’n cael ei dalu i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, ac eithrio’r athro â gofal, adael cyfarfod heb bleidleisio ar fater yn ymwneud â thâl neu arfarnu perfformiad unrhyw berson sy’n gweithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Nid yw hyn yn effeithio ar drafodaethau cyffredinol yn ymwneud â pholisïau cyffredinol

iv) mae’n rhaid i’r athro â gofal adael y cyfarfod heb bleidleisio os mai ei dâl neu arfarnu ei berfformiad yw’r pwnc trafod.